



Caroline Lewis
Cyfarwyddwr Corfforaethol
Cyngor Sir Ceredigion

18 Mehefin 2021

Annwyl Caroline

Adolygiad o Gyflog Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion

Cafodd eich cais ynghylch adolygu cyflog y Prif Weithredwr ei ystyried gan Banel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol mewn cyfarfod ar 11 Mehefin. Roedd pob aelod o'r Panel yn bresennol ac felly cafwyd 'quorate' yn y cyfarfod.

O ran swyddogaeth y Panel mewn perthynas â chyflogau Penaethiaid Gwasanaethau Cyflogedig, mae'r cylch gwaith a'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i'r Panel wneud y canlynol:

- a) Cymeradwyo'r cynnig
- b) Mynegi pryderon am y cynnig
- c) Awgrymu newidiadau i'r cynnig

Ar ôl edrych ar y cais gan eich awdurdod, penderfyniad y Panel yw cymeradwyo'r cynnig ar gyfer cyflog swydd y Prif Weithredwr fel y'i cyflwynwyd gan y Cyngor.

Yn gywir

John Bader
Cadeirydd